Gwybod eich hawliau mewn marchnad ynni sy'n newid

Cymorth gyda phroblem ynni

Cysylltwch â Cyngor ar Bopeth os ydych chi angen cymorth gyda phroblem ynni. Mae hyn yn cynnwys problemau gyda'ch biliau neu fesuryddion, neu os ydych chi'n cael trafferth talu am yr ynni rydych chi'n ei ddefnyddio. Nhw yw'r ffynhonnell cymorth a chyngor annibynnol am ddim ar ynni.

Ewch i: **citizensadvice.org.uk/energy**
Neu cysylltwch â gwasanaeth defnyddwyr Cyngor ar Bopeth ar:

Ffoniwch: **0808 223 1144** (llinell Gymraeg)
Ffôn testun: **18001 ac yna 0808 223 1144**
Llun-Gwener, 9am–5pm
Mae galwadau am ddim

Rheoli eich sefyllfa drwy chwilio am well bargen ynni

Am arbed arian drwy newid tariff neu gyflenwr?

Defnyddiwch ein hadnodd cymharu prisiau
energycompare.citizensadvice.org.uk

Gostwng eich biliau

Os ydych chi am dalu llai heb newid cyflenwr, mae llawer o bethau y gallwch chi eu gwneud i arbed arian.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Simple Energy Advice
(Cymru a Lloegr)

Ewch i: **simpleenergyadvice.org.uk**
Neu ffoniwch: **0800 444 202**
Llun-Gwener, 8am-8pm
Sad-Sul, 9am-5pm
Mae galwadau am ddim

Nyth (Cymru yn unig)

Ewch i: **nyth.llyw.cymru**
Neu ffoniwch: **0808 808 2244**
Llun-Gwener, 9am–6pm
Mae galwadau am ddim

citizens advice

Lluniwyd gan Cyngor ar Bopeth ac anfonwyd atoch chi gan eich cyflenwr ynni. Mawrth 2021.